

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Partneriaethau

Dyddiad: Dydd Gwener, 19 Medi
2014

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 25 MEDI 2014** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2014 (copi ynghlwm).

5 DIWEDDARIAD DIOGELWCH CYMUNEDOL (Tudalennau 11 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau (copi ynghlwm) sy'n rhoi manylion o berfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd yn 2013-2014.

9:35

6 Y CYNLLUN MAWR: RHAN I, 2011-14 - GWERTHUSIAD AC ADRODDIAD TERFYN (Tudalennau 21 - 34)

I werthuso perfformiad y Cyd-Fwrdd Gwasanaethau Lleol wrth ddarparu ei gynllun integredig strategol, ei effaith ar drigolion Sir Ddinbych, a'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol.

10:05

Toriad

7 TEULLOEDD YN GYNTAF (Tudalennau 35 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar, Strategaeth a Chefnogaeth (copi ynghlwm) sy'n rhoi manylion y cynnydd hyd yma o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf a Chanlyniad 4 y Cynllun MAWR.

10:50

8 CYNLLUN LLES SIR DDINBYCH - DIWEDDARIAD (Tudalennau 47 - 62)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau (copi ynghlwm) sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd y cynllun prosiect i gyhoeddi ail Gynllun Integredig Sengl Sir Ddinbych (CIS o hyn ymlaen)

11:20

9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 63 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi yn amgaaedig) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a diweddaru'r aelodau ar faterion perthnasol.

11:50

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr Pwyllgor sy'n aelodau o amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Ann Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Pat Jones

Y Cynghorydd Ray Bartley (Is-Gadeirydd)

Margaret McCarroll
Dewi Owens
Merfyn Parry
Bill Tasker

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 5 Mehefin 2014 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens a Merfyn Parry

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts a Martyn Holland

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR), Rheolwr Busnes, y Tîm Diogelu ac Adolygu (GH), Rheolwr y Gwasanaeth Ymyrraeth Cynnar, Strategaeth a Chefnogi (VA), Swyddog Cymorth Busnes ac Ymyrraeth Cynnar (MH), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Bill Tasker

Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan yr Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant, y Cynghorydd Bobby Feeley.

CROESO

Croesawodd y Cadeirydd yr holl Aelodau a Swyddogion i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ac yn arbennig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Nicola Stubbins, a oedd yn mynychu ei chyfarfod Pwyllgor Archwilio Partneriaethau cyntaf.

Estynnodd y Cadeirydd hefyd groeso i ddau Aelod newydd, sef y Cynghorwyr Raymond Bartley a Richard Davies.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor am ymddiswyddiad y Cynghorydd Alice Jones o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau. Roedd llythyr wedi cael ei anfon at y Cynghorydd Jones, ar ran y Pwyllgor, i ddiolch iddi am ei holl waith caled ar y Pwyllgor.

2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnwyd am CVs/ Datganiadau gan rai oedd â diddordeb yn swydd yr Is-Gadeirydd.

Roedd y Cyngorydd Raymond Bartley wedi cyflwyno Datganiad a chafodd yr enwebiad ei gynnig a'i eilio ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Cyngorydd Raymond Bartley yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

3 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Raymond Bartley gysylltiad personol, fel Ymddiriedolwr Home Start, yn Eitem 9, Gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

4 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 10 Ebrill, 2014.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2014 fel cofnod cywir.

6 BWRDD LLEOL DIOGELU PLANT CONWY A SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r Aelodau Archwilio i fonitro cyflawniadau a pherfformiad y Bwrdd Lleol Diogelu Plant wrth gyflawni ei flaenoriaethau allweddol ar gyfer 2013/2014 a gwybodaeth ar ei flaenoriaethau allweddol ar gyfer 2014/2015.

Roedd Leighton Rees, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bresennol fel Cadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLIDP).

Nododd y Rheolwr Busnes bod adroddiad y BLIDP wedi cael ei gyflwyno'n flaenorol i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Tachwedd 2013, a gofynnwyd yn y cyfarfod hwnnw i ddiweddariad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2013/14.

Rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn ystod 2013/14 o ran darparu blaenoriaethau allweddol y BLIDP.

Er y cydnabuwyd bod y gwaith o ddarparu rhai o'r blaenoriaethau wedi'i rwystro i raddau gan y gwaith sy'n digwydd i sefydlu Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol ac i

ddatblygu rhyngwynebau rhwng y Bwrdd Rhanbarthol a grwpiau darparu isranbarthol, roedd gan yr aelodau nifer o bryderon. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'r:

- Grŵp Tasg a Gorffen Cyflogaeth Diogel nad oedd wedi cyfarfod oherwydd anawsterau wrth ddod o hyd i ddyddiad ac amser oedd yn gyfleus i bawb i sicrhau presenoldeb mor uchel â phosibl neu oherwydd amodau tywydd gwael. Awgrymodd yr Aelodau y gallai defnyddio cyfleusterau cynadledda fideo fod yn ffordd o oresgyn problemau o'r fath a sicrhau bod y Grŵp yn cyfarfod i ddatblygu ei waith a darparu'r canllawiau. Gofynnodd y Pwyllgor i gael gwybod am gynnydd y Grŵp Tasg a Gorffen o ran cyflawni ei amcanion.
- Rhyngweithiad Meddygon Teulu ag atgyfeiriadau amddiffyn plant, yn enwedig eu parodrwydd i dynnu sylw swyddogion diogelu'r Gwasanaethau Plant / Bwrdd Iechyd at achosion lle mae amheuaeth o gam-drin pant. Gofynnodd yr Aelodau i gynnydd wrth ddatblygu cyfranogiad Meddygon Teulu yn y broses atgyfeirio gael ei adrodd iddynt maes o law.

Hefyd Cafwyd trafodaeth ar ymagwedd y BLIDP a'r Gwasanaethau Plant tuag at gam-drin emosiynol ac esgeulustod a'r ffordd y maent yn gweithio gyda sefydliadau ac asiantaethau eraill mewn perthynas ag ymdrin ag achosion o gam-drin emosiynol ac esgeulustod. Dywedodd Swyddogion bod cam-drin emosiynol ac esgeulustod yn faes anodd gan fod materion sylweddol ynghylch beth yn union oedd cam-drin emosiynol ac esgeulustod a'r gwahanol safonau sydd gan bobl gysylltiedig. Roedd yr aelodau'n awyddus i wybod a oedd polisi ar waith yn ysgolion y Sir i helpu canfod cam-drin emosiynol a chorfforol neu esgeulustod. Gwnaethant gais hefyd i wybod a yw brodyr a chwiorydd a ffrindiau plant anabl yn cael eu monitro i sicrhau nad ydynt yn cael eu heithrio'n anfwriadol o weithgareddau arferol yr ysgol oherwydd eu bod yn gweithredu fel gofalwr tra'u bod yn yr ysgol.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

PENDERFYNWYD:

- (a) Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Cynllun Busnes Bwrdd Diogelu Plant Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2013/14;*
- (b) Dylid gwneud pob ymdrech i hwyluso gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Cyflogaeth Ddiogel a chynnig Arweiniad;*
- (c) Dylai'r Bwrdd barhau i weithio gyda Meddygon Teulu gyda'r bwriad o wella eu rhyngweithiad gyda'r broses atgyfeiriadau amddiffyn plant;*
- (d) Dylid adrodd gwybodaeth ar y cynnydd a wnaed gyda phwyntiau (b) a (c) uchod yn ôl i'r Pwyllgor maes o law;*
- (e) Bod gwybodaeth am aelodaeth Bwrdd Diogelu Plant newydd Gogledd Cymru a Grŵp Darparu Diogelu Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei gylchredeg i aelodau cyn gynted â'u bod ar gael;*
- (f) Dylid darparu gwybodaeth ar y nifer o blant sy'n derbyn addysg yn y cartref ar draws y Sir ac ar y mesurau sy'n cael eu cymryd yn ysgolion y Sir i gefnogi brodyr a chwiorydd a ffrindiau disgyblion anabl er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu heithrio'n anfwriadol o weithgareddau neu brofiadau ysgol a phlentyndod oherwydd eu dyletswyddau gofal.*

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd gyda'u gweithrediad, wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad. Roedd rhestr o gynrychiolwyr Archwilio ar Grwpiau Herio Gwasanaeth 2013/2014 hefyd ynghlwm yn Atodiad 4.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, fel y manylir yn Atodiad 1, a gofynnodd yr Aelodau i wahodd yr Aelodau Arweiniol y Cynghorwyr Huw Jones, Eryl Williams, Bob Feeley a David Smith i gyflwyno eu hadroddiadau yng nghyfarfod Gorffennaf, 2014 y Pwyllgor. Byddai'r Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yn cael ei wahodd i fod yn bresennol pe bai'r amserlen yn caniatáu.

O ran cynrychiolwyr Archwilio Partneriaethau ar Grwpiau Herio Gwasanaeth 2013/14, gwnaed dau newid i gynrychiolaeth:

- Cynllunio Busnes a Pherfformiad - Y Cynghorydd Richard Davies
- Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd - Y Cynghorydd Raymond Bartley

Roedd y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion wedi gofyn i gynrychiolydd a dirprwy o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ddod i'r Grŵp. Cytunodd y Cynghorydd Dewi Owens i barhau i fod yn gynrychiolydd a chytunodd y Cynghorydd Richard Davies i weithredu fel dirprwy gynrychiolydd.

Anogwyd yr Aelodau i fynd i'r Grwpiau Herio Gwasanaeth ond os nad ydynt yn gallu mynd, dylent wedyn geisio trefnu i'r dirprwy aelod fod yn bresennol yn eu lle.

Ar ôl derbyn cais gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio, gofynnwyd i aelodau a oes angen unrhyw hyfforddiant archwilio pellach arnynt. Cadarnhaodd holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau y byddent yn elwa o sesiwn hyfforddiant gloywi archwilio.

PENDERFYNWYD - yn amodol ar yr uchod, dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Yn ddiweddar, roedd y Cadeirydd wedi mynd i Fwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych. Roedd y Cydlynnydd Archwilio mewn cysylltiad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (PBC) ynghylch dyddiadau iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid ychwanegu'r canlynol i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau gyda chynrychiolwyr BCU yn y dyfodol:

- Pwynt mynediad sengl i oedolion
- Cyfathrebu ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty

PENDERFYNWYD y dylid nodi'r adborth.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

9 GWASANAETH EIRIOLI RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd adroddiad cyfrinachol (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i Aelodau Craffu ystyried cynigion i gomisiynu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc ddiamddiffyn ledled Gogledd Cymru o fis Ebrill 2015 ymlaen.

Darparwyd gwybodaeth ar y cynnig ar gyfer comisiynu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc ddiamddiffyn y mae Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru'n ymwybodol ohonynt. Mae'r gwaith ar y cyd yn cynnwys chwe awdurdod lleol gogledd Cymru.

Hysbyswyd yr Aelodau fod Comisiynydd Plant Cymru'n awyddus i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael mynediad i wasanaeth eiriolaeth. Fodd bynnag, y cynnig dan ystyriaeth oedd comisiynu gwasanaeth rhanbarthol annibynnol a fyddai'n agored i bob plentyn oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt ar draws Gogledd Cymru.

Byddai comisiynu'r gwasanaeth yn rhanbarthol yn helpu sicrhau y byddai gan blant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth fynediad at wasanaeth teg a chyfiawn, gydag arbenigwyr mewn gwahanol feysydd a fyddai o fewn cyrraedd i bawb oedd yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth.

Byddai'r gwasanaeth newydd hefyd yn adeiladu ar ffyrdd newydd a mwy rhagweithiol o ymgysylltu â'r plant a'r bobl ifanc dan sylw. Roedd potensial i ymgysylltu â nhw'n gynharach ac, felly, rhoi sylw i faterion o bryder o ran eu gofal cyn iddynt waethygu i fod yn bryder neu'n gŵyn mwy difrifol. Gwasanaeth mwy rhagweithiol, a fyddai'n cael ei hyrwyddo'n eang i'r rhai a oedd yn gymwys i'w ddefnyddio, roedd hefyd y potensial iddo fod yn wasanaeth mwy cost effeithiol.

Roedd yr Aelodau'n cefnogi nodau ac amcanion y gwasanaeth rhanbarthol, ond mynegwyd pryder ynghylch a fyddai'r cyllid arfaethedig yn ddigonol, yn enwedig yng ngoleuni'r risgiau a amlinellir yn yr achos busnes o ran cyfaddawdu a gwanhau ansawdd y gwasanaeth, gan gyfyngu ar ddewisiadau proses dendro a dewis y defnyddwyr o eiriolwr. Rhoddwyd sicrwydd bod darparwyr gwasanaethau posibl eisoes wedi mynegi diddordeb mewn darparu gwasanaeth er gwaethaf yr

adnoddau ariannol cyfyngedig sydd ar gael. Byddai gweithdrefnau dyfarnu contractau, rheoli a monitro yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwasanaeth a bennir yn cael ei ddarparu o fewn pris darparu'r contract. Byddai gweithdrefnau rheoli contractau chwarterol yn cael eu sefydlu a byddai cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda darparwr y gwasanaeth i drafod pob agwedd ar reoli a chyflwyno contract.

Gofynnodd yr Aelodau i sesiwn Frifio'r Cyngor gael ei threfnu ar gyfer swyddogion i amlygu pwysigrwydd rhianta corfforaethol, gwasanaethau eiriolaeth a materion eraill yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal i'r holl gynghorwyr eraill.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

PENDERFYNWYD:

- (i) Yn amodol ar y sylwadau uchod a bod y sicrwydd a gafwyd o ran y gyllideb a ddyrannwyd yn ddigonol i ddarparu'r gwasanaeth, y dylid cefnogi'r cynnig i gomisiynu gwasanaeth eiriolaeth rhanbarthol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed; a*
- (ii) Argymhell i'r Cabinet y dylai gefnogi'r cynnig i gomisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn amodol ar y sicrwydd o ystyried bod y gyllideb yn ddigonol i ddarparu'r gwasanaeth ac i gyflawni dyletswydd y Cyngor i gefnogi plant a phobl ifanc i wneud sylwadau neu gwynion am eu gofal yn y gwasanaethau.*

DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 12.00 P.M.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	25 Medi 2014
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau
Teitl:	Yr wybodaeth ddiweddaraf ar Berfformiad y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 2013-2014

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae adroddiad perfformiad y PDC yn seiliedig ar y blaenoriaethau partneriaeth ar y cyd a nodwyd yn yr archwiliad troseddau sy'n cael ei gynnal yn flynyddol. Mae'r Bartneriaeth yn cytuno ar y blaenoriaethau am gyfnod o dair blynedd, ond fe ddiweddarir y cynllun yn flynyddol gydag unrhyw faterion sy'n codi.

1.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2013-2014.

1.3 Mae adroddiad perfformiad llawn 2013/14 wedi'i atodi

1.4 Mae'r adroddiad perfformiad yn cael ei drafod yn flynyddol yn y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau am berfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd yn 2013-2014.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Aelodau roi sylwadau ar y:

3.1 perfformiad yn 2013/14 (Atodiad 1); a

3.2 blaenoriaethau yn y dyfodol (Atodiad 2)

4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Fe grëwyd PDC yn 1998 i ddatblygu a gweithredu Strategaethau a chynlluniau gweithredu i leihau trosedd ac anrhefn. Roedd gan bob Awdurdod eu PDC eu hunain. Tua 4 blynedd yn ôl fe unodd timau PDC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, (CBSC), a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn un tîm unigol, gyda CBSC yn brif gyflogwyr. Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd sy'n arwain rheolaeth y PDC yng Nghyngor Sir Ddinbych.

4.2 Mae trefn cyfarfodydd y PDC yn cynnwys:

- Grŵp Strategol - sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn – Presenoldeb CSDd; Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau (Liz Grieve), Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (Cyng D Smith) a chynrychiolydd CSDd ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Cyng B Tasker).
- Grŵp Gweithredu – mae hwn yn grŵp gweithredol sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod unrhyw broblemau sy'n codi – Y Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Emlyn Jones) sy'n cynrychioli CSDd yn y cyfarfod hwn.
- Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - yn cael ei gynnal bob chwe wythnos ac mae'r Uwch Swyddog Gorfodaeth (Tim Wynne-Evans) yn mynychu ar ran CSDd.

4.3 Y pum maes blaenoriaeth PDC ar gyfer 2011-2014 yw:

1. Lleihau troseddau a'r effaith ar y gymuned drwy:
 - Lleihau troseddau treisgar
 - Monitro troseddau rhywiol difrifol
 - Lleihau troseddau meddiangar difrifol
 - Lleihau nifer y bobl sy'n dioddef troseddau dro ar ôl tro
2. Lleihau aildroseddu gan;
 - Lleihau aildroseddu ymysg y troseddwyr mwyaf cyson
 - Lleihau troseddu ymysg unigolion dan 18 oed
3. Taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad sy'n effeithio ar yr amgylchedd drwy:
 - Lleihau troseddau sy'n gysylltiedig ag eiddo trwyddedig
 - Lleihau argaeledd alcohol i bobl ifanc
 - Lleihau adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol
 - Cynyddu nifer y Rhybuddion Cosb Benodedig sy'n cael eu rhoi am droseddau amgylcheddol
4. Lleihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio alcohol a sylweddau trwy;
 - Gynyddu cysylltiadau newydd gan y Gwasanaeth Lleihau Niwed
 - Cynyddu nifer yr unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio i driniaeth strwythurol

5. Taclo cam-drin domestig yn effeithiol drwy:

- Fonitro digwyddiadau domestig a throeddau domestig
- Gwella ymateb yr holl asiantaethau perthnasol i ddioddefwyr cam-drin domestig

4.4 Mae gan bob maes Blaenoriaeth nifer o ddangosyddion perfformiad sydd wedi'u neilltuo i fonitro cynnydd a thueddiadau troseddau. Rydym yn adolygu pob un o'r ystadegau bob chwarter yn y grŵp Gweithredu ac yn gweithredu ar unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Mawr a'r Cynllun Corfforaethol.

5.2 Mae'r gwaith hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethau gwasanaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r gweithgaredd o fewn y Cynllun Gweithredu wedi'i ariannu yn llawn gan grant.

6.2 Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn derbyn cyllid grant wedi'i neilltuo i gyflawni'r Cynllun Diogelwch Cymunedol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan yr holl Awdurdodau Cyfrifol sy'n eistedd ar Grŵp Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae cyllid PDC Sir Ddinbych fel a ganlyn:

(a) Cronfa Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau - £310,895 – Cyllid Llywodraeth Cymru. Nod y gronfa hon yw comisiynu gwasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

(b) Cronfa Cymunedau Diogelach - £166,939 – Cyllid Llywodraeth Cymru – gyda'r nod o leihau troseddwy'r ifanc.

(c) Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd - £27,063 – Cyllid Llywodraeth Ganolog – ar gyfer materion lleol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Gan fod ffocws gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yr un fath ag yn y blynyddoedd blaenorol nid oes unrhyw Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

newydd wedi cael ei gynnal. Mae'r un a gyflwynwyd y llynedd yn dal i fod yn berthnasol.

8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Ymgynghorodd y PDC yn 2010 ar y Cynlluniau Gweithredu 2011-2015 drwy'r holl Awdurdodau â chyfrifoldeb (Cyfarwyddwr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd ac Awdurdod yr Heddlu).

8.2 Mae'r PDC yn rhoi gwybod yn flynyddol i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau'r Cyngor.

8.3 Mae'r PDC yn rhoi gwybod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ôl yr angen

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Dylid cynnwys cost darparu'r Cynllun o fewn y cyllid allanol perthnasol sydd ar gael.

10. Pa risgiau sydd, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y brif risg yw nad ydym yn gwybod beth fydd y cyllid diogelwch cymunedol ar gyfer 2015-2016. Mae cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ym mis Tachwedd 2012 wedi golygu bod ein cyllid Swyddfa Gartref wedi trosglwyddo i'r Comisiynydd i'w ddyrannu. Byddwn yn gallu gwneud cais am arian, ond bydd y penderfyniad yn y pen draw yn gorffwys gyda'r Comisiynydd a bydd yn rhaid iddo/iddi gydbwyso'r ceisiadau ar gyfer Gogledd Cymru. Er mwyn lliniaru'r risg, byddwn yn sicrhau bod ein holl achosion busnes yn gadarn, a bod gan bob prosiect ganlyniadau clir.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Adran 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder
- Rheoliadau (Trosolwg ac Archwilio) Trosedd ac Anrhefn 2009
- Erthygl 6.3.5 Cyfansoddiad y Cyngor

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Conwy a Sir Ddinbych)

Ffôn: 01492 575190

Community Safety Partnership: DENBIGHSHIRE



Iudalen 15

Reduce crime and the impact of crime	2011/12	2012/13	2013/14		% Change	Actual Change
Recorded crime	6773	5694	4960		-37%	-1813
Violence against the person	1870	1761	1610		-16%	-260
Violence with injury	764	794	653		-17%	-111
Violent alcohol related crime	232	245	245		5%	13
Sexual offences	143	149	147		3%	4
Domestic burglary	309	258	204		-51%	-105
Robbery	40	22	25		-60%	-15
Vehicle crime (excl vehicle interference)	413	326	215		-92%	-198
Repeat victims	135	123	67		-101%	-68

Community Safety Partnership: DENBIGHSHIRE



Tudalen 16

Reduce reoffending	2011/12	2012/13	2013/14		% Change	Actual Change
The rate of adult reoffending	8.55	8.29	7.69		-11%	-0.86
The rate of PPO reoffending		73.33	64.29			
The number of first time entrants to the YJS	70	66	62		-13%	-8
The number of yellow cards / alcohol confiscations issued	45	67	151		70%	106
The number of referrals to PAD	58	25	99		41%	41
Proportion of young offenders who reoffend (Conwy & Denbighshire combined)	10.80%	13.20%	16.30%		34%	

Community Safety Partnership: DENBIGHSHIRE



Tudalen 17

Effectively tackle ASB and behaviour adversely effecting the environment	2011/12	2012/13	2013/14		% Change	Actual Change
Crimes linked to licensed premises (excluding aqisitive crime)	55	46	45		-22%	-10
Criminal damage	1269	973	845		-50%	-424
Alcohol related criminal damage	67	52	55		-22%	-12
Arson (recorded by NWP)	41	36	19		-116%	-22
Deliberate fires (recorded be NWFRS)	140	76	73		-92%	-67
ASB (reported to NWP)	4987	4468	4014		-24%	-973
ASB (reported to CCBC)	1217	1229	1493		18%	276
Fixed penalties issued for environmental crime	319	1778			#DIV/0!	-319

Community Safety Partnership: DENBIGHSHIRE



Tudalen 18

Effectively tackle domestic abuse	2011/12	2012/13	2013/14		% Change	Actual Change
Domestic incidents (reported to NWP)	1508	1596	1199		-26%	-309
Domestic crimes (reported to NWP)	725	738	588		-23%	-137
Number of cases dealt with by the Independent Domestic Violence Advisor	237	182	132		-80%	-105
Number of referrals to MARAC	199	161	133		-50%	-66
Frontline staff trained to use CAADA DASH RIC (Conwy & Denbighshire combined)	184	128	73		-152%	-111
Referrals to Safer Homes (Conwy & Denbighshire combined)	182	161	143		-27%	-39

Initial summary of 3 year progress report - Denbighshire

Areas of improvement

- Recorded crime has reduced
- Violent crime has reduced
- Burglary, vehicle crime and robbery has reduced
- Fewer repeat victims
- Adult reoffending in Denbighshire has reduced
- Number of first time entrants to YJS has reduced
- Referrals to Prevent and Deter has increased
- ASB reported to NWP has fallen along with crimes at licensed premises, arson and criminal damage while reports of ASB have increased to DCC
- In Denbighshire domestic incidents and crimes have fallen

Areas with no significant change

- Sexual offences in Denbighshire

Areas of concern

- Proportion of young offenders who reoffend
- Lack of consistency in staffing for the provision of domestic abuse services has led to inconsistent service delivery.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	25 Medi 2014
Aelod Arweiniol/Swyddog:	Arweinydd/Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau
Awdur yr Adroddiad:	Swyddog Cynllunio a Pherfformiad
Teitl:	Y Cynllun MAWR: Rhan I, 2011-14 – Gwerthusiad ac Adroddiad Terfyn

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn archwilio darpariaeth y Cynllun MAWR: Mae Rhan I, 2011-14 (Cynllun Integredig Sir Ddinbych), yn nodi ei effaith ar bobl yn Sir Ddinbych, ac yn myfyrio ar lwyddiant partneriaid o ran symleiddio trefniadau partneriaeth a arferai fod yn gymhleth. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at wersi allweddol a ddysgwyd ac yn awgrymu newid y ffordd ymlaen.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

- 2.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y gwahaniaeth a gafwyd o ganlyniad i'r Cynllun MAWR a'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1 ystyried yr adroddiad;
- 3.2 yn trafod effaith y cynllun MAWR ar bobl Sir Ddinbych a'r gwersi a ddysgwyd o reoli'r rhaglen; a
- 3.3 sylwadau ar y newid arfaethedig o symud ymlaen.

4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Cefndir – Ffordd newydd o weithio gyda'n gilydd (gweler Atodiad 1)

- 4.1.1 Wrth ddatblygu'r Cynllun MAWR (a elwir yn gynllun integredig sengl), mae Sir Ddinbych yn hysbys drwy Gymru fel arloeswr sy'n dylanwadu ar lunio dyfodol cynllunio integredig yng Nghymru. Roedd trefniadau cynllunio partneriaid blaenorol yn gymhleth, gyda gormodedd o gynlluniau a grwpiau partneriaid. Yn 2011, am y tro cyntaf a chyn unrhyw ardal arall, cofrestrodd y sector cyhoeddus yn Sir Ddinbych ar un cynllun unigol, gyda chytundeb ar un set o wyth canlyniad.
- 4.1.2 Roedd yr wyth canlyniad yn uchelgeisiol ac roedd llawer yn gofyn am ddatrysiadau i broblemau diysgog ac anodd eu datrys (fel tlodi, teuluoedd agored i niwed a ffyniant economaidd). Oherwydd hyn, rhaid bod yn ofalus o ran disgwyl gwelliannau uniongyrchol ym mhob un o'r wyth canlyniad mewn ychydig o flynyddoedd. 'r
- 4.1.3 Cymerodd partneriaid beth amser ar y dechrau i sefydlu'r dull gweithredu hwn tra'r oedd Bwrdd Partneriaeth Strategol Sir Ddinbych yn cael ei sefydlu. Mae arweinyddiaeth gan y Bwrdd hwn a Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych wedi bod yn hanfodol ar gyfer gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth yn y sir.

4.2 Pa wahaniaeth a wnaeth y Cynllun MAWR i bobl yn Sir Ddinbych? (Gweler Atodiad 2)

- 4.2.1 Roedd y Cynllun Mawr yn cymhwyso amrywiaeth o rwymedigaethau a chanllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru. Nododd partneriaid faterion

newydd hefyd – neu faterion nad oeddent wedi cael eu blaenoriaethu'n effeithiol mewn partneriaeth, fel economi, sgiliau a materion cyflogaeth Sir Ddinbych, yn ogystal â dulliau ymyrryd cynnar i gefnogi teuluoedd agored i niwed. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn mewn partneriaeth wedi gwella canlyniadau i bobl, er bod effaith y Cynllun Mawr ei hun yn llai clir. Rhestrir y negeseuon allweddol ar gyfer pob canlyniad isod:

Canlyniad 1: Pobl Hŷn i gael bywyd annibynnol a chyflawn

- Er bod llawer o weithgarwch wedi bod yn yr ardal hon, yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol (Cynllun Corfforaethol y Cyngor, Datganiad o Fwriad Gogledd Cymru i Integreiddio Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bil Lles ac ati), nid yw'r Cynllun MAWR ei hun yn ymddangos fel ei fod wedi cynnig mwy o werth sylweddol.

Canlyniad 2: Mae Pobl a Lleoedd yn y Rhyl yn manteisio o weithgarwch adfywio

- Ni symbylwyd rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen gan y Cynllun MAWR, er bod ei ran yn y Cynllun MAWR wedi dylanwadu ar ymwybyddiaeth BGLI o adfywiad yn y Rhyl a'r dull o weithredu tuag ato.

Canlyniad 3: Caiff Plant a Phobl Ifanc yn Sir Ddinbych eu cefnogi i fyw bywyd heb dlodi, lle gallant fod yn annibynnol ac aeddfedu

- Roedd rhai blaenoriaethau yng Nghanlyniad 3 eisoes ar waith, a chodwyd eu proffil oherwydd eu bod yn rhan o'r Cynllun MAWR.

Canlyniad 4: Caiff teuluoedd sy'n agored i niwed yn Sir Ddinbych eu cefnogi i fyw bywyd heb dlodi, lle gallant fod yn annibynnol ac aeddfedu

- Mae 159 o deuluoedd wedi cael cymorth gan Teuluoedd yn Gyntaf. Mae datblygiadau ar waith ar gyfer gwella gweithdrefnau rheoli perfformiad er mwyn asesu canlyniadau i deuluoedd, a hefyd i asesu'r buddiannau o ran costau'r dull gweithredu hwn (yn enwedig ar gyfer y teuluoedd hynny sydd fwyaf tebygol o angen cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol).
- Enillodd prosiect Hyrwyddo Incwm Teuluoedd yn Gyntaf £1,531,437 o fudd-daliadau ac incwm credyd treth, a ddaeth â 180 o gartrefi (70 y cant o'r holl achosion) allan o dlodi economaidd a 43 (15 y cant) allan o dlodi tanwydd. Roedd sefyllfa ariannol 72 y cant o deuluoedd yn well o ganlyniad (2013/14)
- Cydnabyddir ledled Cymru bod rhaglen Sir Ddinbych ar y blaen o ran comisiynu strategol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hyn wedi arwain at fwy o gydlynw rhaglenni (ee Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf).

Canlyniad 5: Caiff anghenion ein cymunedau gwledig eu cydnabod a'u diwallu

- Mae partneriaid wedi cael trafferth i nodi blaenoriaethau ar gyfer ein hardaloedd gwledig ac mae dangosyddion yn amhendiant o ran a yw profiadau pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig wedi gwella o ganlyniad i'r Cynllun MAWR.

Rhaglen 6: Mae gan bobl Sir Ddinbych ffordd o fyw iach.

- Mae iechyd a lles pobl Sir Ddinbych yn dda ar y cyfan ac mae mentrau penodol wedi bod yn llwyddiannus, ee mentrau rheoli tybaco mewn sefydliadau partner gan gynnwys lleoedd cyhoeddus fel parciau chwarae.
- Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau o ran iechyd yn parhau i fod yn dreiddiol
- Rhoddodd y canlyniad hwn ffocws strategol i bartneriaid darparu allweddol fel gwasanaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y Cyngor.

Canlyniad 7: Mae plant, pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn yn Sir Ddinbych yn ddiogel

- Mae trosedd a gofnodir wedi gostwng yn Sir Ddinbych; er dyma'r achos ledled Cymru ac nid yw wedi gwella ein sefyllfa mewn perthynas ag ardaloedd tebyg.
- Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi tyfu ac mae'r nifer sydd ar y gofrestr am dros 12 mis yn parhau i fod yn bryder.
- Nid yw'n ymddangos bod y Cynllun Diogelwch Cymunedol wedi cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan y Cynllun Mawr, gan arwain at y casgliad na gynigiodd y cynllun MAWR werth ychwanegol i'r maes gwaith hwn.

Canlyniad 8: Mae gan Sir Ddinbych economi ffyniannus a chynaliadwy yn ogystal â gweithlu medrus

- Roed y Cynllun MAWR yn ddylanwadol a chymerodd BGLI y blaen ar faterion economaidd yn seiliedig ar bobl drwy'r prosiectau canlynol a ariennir gan CGE:
 - o Prosiect i gydlynu a gwella datblygiad hyfforddiant, sgiliau a'r gweithlu.
 - o Mae prosiect Llwybrau Ymgysylltu Blaengar i leihau'r nifer o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed sy'n ddi-waith ac sydd wedi ymddieithrio wedi nodi bron i 300 o wasanaethau cefnogi ac wedi gweld bod diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o hyn. Bydd canfyddiadau'r prosiect hwn yn allweddol i unrhyw brosiectau'r dyfodol a gaiff eu cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.
 - o Mae Prosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd wedi hyfforddi dros 625 o weithwyr rheng flaen gan alluogi i wasanaethau rheng flaen wneud mwy i gynorthwyo pobl i gael gafael ar gyngor a gwasanaethau cynhwysiant ariannol o ansawdd.
- Tynnodd y Cynllun MAWR sylw at sgiliau sylfaenol gwael yn Sir Ddinbych ac mae hyn wedi arwain at rywfaint o ddatblygiadau addawol: Mae BGLI wedi cymeradwyo ffrwd waith sgiliau sylfaenol mewn cais CGE sengl yng Ngogledd Cymru i fynd i'r afael â'r cymorth sydd ei angen i'r rheini sy'n anweithredol yn economaidd. Caiff y cais hwn ei ddatblygu gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

4.3 Gwersi a ddysgwyd (gweler atodiad 3)

4.3.1 Arweiniodd y trawsnewidiad hwn i'r ffordd newydd o gynllunio gyda'n gilydd at ychydig o broblemau ac oedi o ran prosesu. Rhoddwyd mwy o ystyriaeth i integreiddio strwythurau partneriaethau ledled Conwy a Sir Ddinbych, a arweiniodd at gollu amser gwerthfawr i gytuno ar gynlluniau gweithredu a'u darparu.

4.3.2 O ystyried natur gydweithredol y Cynllun MAWR, mae cadw cofnod ar gostau wedi bod yn gymhleth. Lle cafodd blaenoriaethau eu hategu gan drefniadau ariannu clir, fel canlyniad 4 (arian Teuluoedd yn Gyntaf), mae newidiadau i

weithio mewn partneriaeth wedi digwydd yn gynt ac, yn amlwg i'w weld, mae'r canlyniadau i bobl yn well.

- 4.3.3 Mae'r amgylchedd ariannol yn effeithio ar allu partneriaid i ddarparu gwasanaethau a chydweithio ar draws amrywiaeth eang o flaenoriaethau. Gallai hyn arwain at waith cydweithredol llawer mwy diffiniedig a phenodol ar set o faterion penodol, gan fod rhaid i bartneriaid ystyried yn ofalus iawn yr hyn y gallant ymrwymo i fynd i'r afael ag ef gyda'i gilydd a'r buddiannau maent yn bwriadu eu gwireddu.
- 4.3.4 Ysgogodd y Cynllun MAWR y sector cyhoeddus i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion â mwy o ffocws ac sy'n fwy ystyriol. Mae wedi llywio cynlluniau strategol a busnes o fewn sefydliadau ac mae wedi datblygu i fod y model a dderbynnir ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, nid yn unig yn Sir Ddinbych ond ym mhob cwr o Gymru. Fodd bynnag, roedd y Cynllun MAWR yn dal i fod yn rhy fawr – er gwaethaf cynnig dewis amgen llawer mwy syml i drefniadau cynllunio blaenorol - gyda phrosesau rheoli perfformiad a phrosesau asesu anghenion anhylaw.

4.4 Argymhellion:

- 4.4.1 Dylai Cynllun Integredig Sengl y dyfodol fod yn gynllun ag iddo fwy o ffocws, gyda llai o ganlyniadau a blaenoriaethau, tra'n cynnig eglurder ar sut y caiff dyletswyddau statudol eu bodloni mewn partneriaeth.
- 4.4.2 Mae angen i gynlluniau'r dyfodol fod yn benodol o ran pa fentrau sydd eu hangen ar gyfer sicrhau canlyniadau gwell, a rhaid bod yn fanwl gywir o ran y budd-daliadau y dymunir eu cael ac sy'n ddisgwyliedig, a phryd y cânt eu gwireddu.
- 4.4.3 Dylid graddio fframwaith rheoli perfformiad y Cynllun Integredig Sengl newydd i set o fesurau y gellir eu rheoli, gan alluogi archwiliad ystyrion o weithgarwch, perfformiad a chanlyniadau.
- 4.4.4 Mae ymyrraeth gynnar yn sicrhau buddiannau i sefydliadau a gwell canlyniadau i bobl, sy'n dyst o ffyrdd newydd o gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed. Dylid ystyried y maes hwn yn eang wrth gynllunio yn y dyfodol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Nid yw'n gymwys.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Nid oes galw am arian ychwanegol ar gyfer y Cynllun MAWR neu ar gyfer Cynllun arfaethedig Lles Sir Ddinbych ar hyn o bryd.

7. Beth yw prif ganlyniadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

- 7.1 Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Cynllun MAWR Sir Ddinbych wedi cael ei ddisodli gan waith i integreiddio cydraddoldeb i mewn i asesiad o anghenion. Bydd y Cynllun Lles arfaethedig yn cynnwys Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

- 8.1 Caiff yr adroddiad hwn ei ystyried gan Fwrdd Partneriaeth Strategol Sir Ddinbych a Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych ym mis Medi 2014.

9. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid yw'n gymwys.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r argymhellion uchod yn lleihau'r risgiau.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Mae Erthyglau 6.1, 6.3.2(dd) a 6.3.4(b) yn amlinellu pwerau'r pwyllgor caffael o ran y mater hwn.

Swyddog Cyswllt:

Swyddog Cynllunio a Pherfformio

Ffôn: 01824 706291

Atodiadau

- 1 Symleiddio prosesau – a gafodd ei gyflawni?
- 2 Canlyniadau a Dangosyddion y Cynllun MAWR
- 3 Gwersi a ddysgwyd

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1: Streamlining processes – was it achieved?

While our primary focus should be on assessing the impact of The BIG Plan for Denbighshire’s citizens, it is important not to underestimate the savings, in terms of cost and time, from streamlining processes.

No	Description of the problem in 2010	Solution	Closure synopsis
1	Four partnership plans	The Big Plan brought together the previously separate planning processes for the Community Strategy, Children and Young People’s Plan and the Health, Social Care and Wellbeing Plan (and to a much lesser extent the Community Safety Plan).	<ul style="list-style-type: none"> • The BIG Plan merged three plans but the Community Safety Plan remained as was. • This reduced the cost associated with planning and needs assessment, engagement and consultation activity, and publication. • Burdens on stakeholders were reduced (fewer meetings, reduced consultation) and the landscape was simplified: there was one plan for everyone.
2	Four support teams (Children and Young People; Health, Social care and Wellbeing; Denbighshire County Council Corporate Team; Community Safety)	Creation of a single Partnerships and Communities Team.	<ul style="list-style-type: none"> • A single ‘Partnerships and Communities Team’ was formed and was in place by 2011. Community Safety remained separate. • Cost savings of approximately £70k
3	Four complicated partnership structures (ie groups and boards)	Support structures were reduced (from 4 strategic boards and in excess of 20 working groups to a single Denbighshire Strategic Partnership Board, a Families First Board and Children, Young people and Families Partnership)	<ul style="list-style-type: none"> • The change management process for streamlining groups and structures was protracted; hindered initially by consideration to merge aspects of partnerships with Conwy, which led to delays in terms of some delivery. • By 2013, one single Denbighshire Strategic Partnership Board was in place reporting to LSB. Delivery groups were then considered as part of a ‘partnerships landscape review’, although the results of which were inconclusive. • The Community Safety Partnership remained as was.

Appendix 2: The BIG Plan Outcomes and Indicators

Some indicators are not yet available for 2013/14. Some of these indicators will continue to be tracked in needs assessment research, as part of the proposed Wellbeing Plan.

Green / Excellent

Yellow / Good

Orange / Acceptable

Red / Priority for Improvement

Outcome 1: Older People lead independent & fulfilled lives

INDICATORS	BEFORE Baseline	2010/11	AFTER 2013/14
% of carers of adult service users who were assessed or re-assessed in their own right who were provided with a service	85.2		95.5
% of carers whose health and wellbeing improves following support	-		-
% of older people aged 65 and over supported in the community	83.3		89.32
% of positive resident responses to the statement: My council has helped me to live independently	62.9		-
Number of older people (aged 60 and over) participating in physical activity and wellbeing opportunities at Leisure Centres	-		48327
Rate of delayed transfers of care for social care reasons per 1000 population aged 75 or over	0.71		0.33

Outcome 2: People & Places in Rhyl benefit from regeneration activity

INDICATORS	BEFORE 2010/11 Baseline	AFTER 2013/14
% of KS4 pupils who achieved Level 2, including English/Welsh and Mathematics at Blessed Edward Jones R.C. High School	37.4	44.4
% of KS4 pupils who achieved Level 2, including English/Welsh and Mathematics at Rhyl High School	36.1	50.8
% of working age population claiming Jobseeker's Allowance in Rhyl South West	6.7	6.2
% of working age population claiming Jobseeker's Allowance in Rhyl West	14.8	14.4
Fewer or no Rhyl Lower Super Output Areas will be in the top 5 most deprived areas in Wales (WIMD)	3	1
Number of vacant town centre properties in Rhyl	47 (12.1%)	58 (15.2%)*
STEAM total revenue from tourism (coastal Denbighshire) (£m)	177	176.42*
STEAM tourism industry direct employment (coastal Denbighshire) (FTE)	2763	2723*
Tenure (owner occupation / private rented / RSL)	-	-
Town centre footfall	-	-
Type of housing	-	-

* 2011/12

Outcome 3: Children & Young People in Denbighshire are supported to live a life free from poverty, where they can be independent & flourish

INDICATORS	BEFORE 2010/11 Baseline	AFTER 2013/14
% of Year 11 learners not in education, employment or training (NEET)	4.4	2.9 (2012)
% of further Education 16-19 learners, with literacy skills below Level 1	52.2	40.2*
% of further Education 16-19 learners, with numeracy skills below Level 1	67.3	60.4*
% of learners eligible for free school meals achieving Level 2 threshold at KS4, including English/Welsh and Maths	19.7	24.1
% of pupil attendance in primary schools	94.0	94.3
% of pupil attendance in secondary schools	91.3	92.4
% of pupils achieving A*- C in GCSE Welsh as a Second Language Full Course	82.2	90*
% of pupils achieving A*- C in GCSE Welsh First Language	74.1	98*
% of pupils achieving the level 2 threshold or vocational equivalents (all pupils)	60.7	85.7 (2012)
% of school days lost due to fixed-term exclusions during the academic year, in secondary schools	0.16	0.09
Young carers attend and achieve at school	-	-

*2011/12

Outcome 4: Vulnerable families in Denbighshire are supported to live a life free from poverty, where they can be independent & flourish

INDICATORS	BEFORE 2010/11 Baseline	AFTER 2013/14
% of 18-24 year olds claiming Jobseeker's Allowance	9.70	7.5
% of children aged 16-18 Not in Education, Employment or Training, at the preceding 31 August in Denbighshire	4.40	2.9*
% of children fully immunised by their 4th birthday	-	82.3*
% of children in poverty*	22.1	-
% of children in reception class who are overweight or obese	Not yet available from WG	Not yet available from WG
% of FSM pupils who achieve the Core Subject Indicator at KS2, compared to non-FSM pupils	69.37 (86.0 non-FSM)	77.1 (88.2 non-FSM)
% of FSM pupils who achieve the Foundation Phase Indicator (teacher assessment), compared to non-FSM pupils	-	71.4 (81.7 non-FSM)*
% of FSM pupils who achieve the Level 2 threshold (GCSE A*- C in English/Welsh & Maths), compared to non-FSM pupils	19.7 (48.7 non-FSM)	24.1 (59.5 non-FSM)
% of half day sessions (overall absence) missed by FSM pupils in primary school compared to non-FSM pupils	7.9 (5 non-FSM)	-
% of half day sessions (overall absence) missed by FSM pupils in secondary school compared to non-FSM pupils	13.7 (7.8 non-FSM)	12.9 (7.3 non-FSM)*
% of offenders who re-offend	25.1	-
% of service users with mental health needs who leave support to live independently	46.5	45.3*
Children in need by parental capacity (domestic abuse)	13.3	28
First time entrants to Youth Offending Teams	212	125*
Number of homeless households with dependent children in temporary accommodation at the end of the period	30	15*

INDICATORS	BEFORE 2010/11 Baseline	AFTER 2013/14
Number of households with dependent children accepted as eligible, unintentionally homeless and in priority need	35	35
Rate of conceptions under age 16 years per 1000 female residents aged 13 to 15	5.30	4.8**
